

Nod y Grant Amddifadedd Disgyblion yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu hwynebu sy'n eu rhwystro rhag sicrhau cyrhaeddiad cystal â'u cyd-ddisgyblion, beth bynnag fo'u gallu.

Y mae Ysgol Tryfan yn gwbl ymrwymedig i wneud defnydd llawn o'r GADer mwyn cau'r bwch hwn a lleihau effaith tloedi ar gyrhaeddiad addysgol. Fe wnawn hyn trwy ddatblygu nifer o strategaethau amrywiol gan gynnwys:

- Tracio cynnydd unigolion yn effeithiol a thargedu cefnogaeth
- Darparu cefnogaeth bersonol ac anogaeth ddysgu i garfan o ddysgwyr sydd mewn angen, gan gynnwys mentora personol yn CA4.
- Targedu rhaglenni ymyrraeth effeithiol
- Targedu presenoldeb dysgwyr sydd mewn peryg o ymddieithrio a thrwy hynny dangyflawni mewn bywyd.
- Sicrhau mynediad at weithgareddau cyfoethogi, dileu unrhyw rwystrau ariannol i gyfranogi a darparu gweithgareddau cwricwlaidd a chyfleoedd allgyrsiol.
- Darparu gwersi ychwanegol, gwersi mewn grwpiau bychain a strategaethau eraill sydd wedi'u bwriadu i bersonoleiddio dysgu.
- Sicrhau nad yw diffyg adnoddau addysgol yn rhwystr i garfan benodol o ddysgwyr yn yr ysgol.
- Datblygu strategaethau sy'n cynnwys y teulu a'r gymuned.
- Gwreiddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac mewn dysgu ehangach i lais dysgwyr chwarae rhan lawn wrth oleuo penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg.

Meysydd Allweddol	Gweithgaredd	Gwariant	Effaith
<b>Lleihau'r bwch rhwng presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion PYD cymwys a'r disgyblion eraill.</b>	<p>Hyfforddiant a strategaethau hyrwyddo ymddygiad da</p> <p>Datblygu'r defnydd o'r Uned Cynhwysiad gan roi sylw penodol i grwpiau o ddysgwyr. Sicrhau cefnogaeth Uwch Gymhorthydd Cynhwysiad</p> <p>Datblygu a staffio strategaeth hyrwyddo presenoldeb dysgwyr PYD a hybu ymglymiad cartref.</p> <p>Amser penodol wedi ei neilltuo ar gyfer pob pennaeth blwyddyn a'r Pennaeth Cynorthwyol Lles er mwyn cefnogi'r garfan PYD yn benodol o ran cynnydd, presenoldeb ac ymglymiad cartref.</p>	<b>£25,500</b>	Gwella presenoldeb a chanlyniadau'r disgyblion perthnasol. Lleihau'r bwch rhwng cyfradd presenoldeb dysgwyr PYD a Dim PYD Gwelliant o ran data gwaharddiadau'r garfan dan sylw

<p><b>Lleihau'r bwloch rhwng cyrhaeddiad disgyblion PYD cymwys / mewn tlodi a'r disgyblion sydd heb fod yn gymwys ar gyfer PYD.</b></p>	<p>Cynllun Ymyrraeth Darllen i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 sy'n tan gyrraedd o ran eu hoed darllen.</p> <p>Cefnogaeth Cymorthyddion.</p> <p>Cefnogaeth Anogwr Dysgu CA4</p> <p>Gwersi ac adnoddau ychwanegol Mathemateg CA4 a phynciau craidd eraill.</p> <p>Tracio a thargeddu pwrpasol yn CA4 ar gyfer pob dysgwr gyda'r hawl i PYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pob adran graidd wedi cael amser penodol i dracio a thargeddu cyrhaeddiad PYD CA4</li> <li>• Neilltuo amser y Cydlynedd ADY i deilwra a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr PYD</li> <li>• Gwaith tracio a thargeddu penodol ar gyfer y dysgwyr PYD gan y Pennaeth Cynorthwyol Asesu</li> </ul>	<p>£41,700</p>	<p>Gwella sgiliau craidd dysgwyr PYDd CA3.</p> <p>Cau'r bwloch rhwng perfformid y dysgwyr gyda'r hawl i PYD a'r gweddill yn y prif ddangosyddion CA4.</p> <p>Fel isafswm - Cyrraedd targed LLC o berfformiad TL2+ dysgwyr PYD CA4 dros dreigl yn uwch na 34%</p>
<p>Hyrwyddo ymglymiad teuluol a chymunedol effeithiol</p>	<p>Targeddu rhieni grŵp penodol o ddysgwyr i hyrwyddo cyfranogiad yn nysgu eu plant. Wedi ei glynu yn y strategaethau uchod.</p>		
<b>Cyfanswm</b>		<b>£67,200</b>	